Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 08/09/20

Yn bresennol: Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes (Cadeirydd), D.L.Jones, K.Jones, E.Lovgreen, M.Sarnacki, R.Thomas

---

1.Cadeirydd

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd E.R.Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor Adloniant ar gyfer 2020/21 (unfrydol).

2. Is-gadeirydd

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd E.Lovgreen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Adloniant ar gyfer 2020/21 (unfrydol).

3.Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd K.Richards

4. Datgan Buddiant Personol

Dim

5.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

6.Cystadleuaeth Garddio

Nododd y Clerc:

(1) Yr hysbysebwyd y Gystadleuaeth Garddio drwy roi ffurflen ar wefan y Cyngor a pharatoi Datganiad i'r Wasg. Fodd bynnag, dim ond ychydig o bobl a ddychwelodd y ffurflen. Gan hynny penderfynwyd cario ymlaen fel arfer, gyda'r Gystadleuaeth yn agored i bawb, ond bod cystadleuaeth ychwanegol ar gyfer y rhai oedd wedi cwblhau ffurflen.

(2) Bod Mr Peter Garlick wedi beirniadu'r gystadleuaeth yn ystod mis Awst.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc:

(1) Ofyn am gwpanau yn ôl gan enillwyr y Gystadleuaeth y llynedd.

(2) Gysylltu efo'r Cystadleuwyr i adael iddynt wybod beth oedd yn digwydd, er enghraifft drwy Facebook.

(3) Hysbysu'r enillwyr eu bod wedi bod yn llwyddiannus.

(4) Trefnu fod y Maer (ac yn ei absenoldeb y Dirprwy Faer neu Gadeirydd y Pwyllgor hwn) i fynd o gwmpas i gyflwyno'r cwpanau i'r enillwyr.
(5) Tynnu lluniau o'r gerddi wrth fynd o amgylch i gyflwyno'r cwpanau a'r tystysgrifau.
(6) Rhoi rhywbeth fel cydnabyddiaeth i'r Beirniad (gwirio yn ôl i weld beth ddigwyddodd y llynedd).

7. Sul y Cofio

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar Sul y Cofio.

Nododd y Clerc:
(1) Mai prin iawn yw'r arweiniad o'r Lleng Brydeinig, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain ar hyn o bryd.
(2) Bod y Lleng Brydeinig Frenhinol wedi cyhoeddi y bydd Apêl y Pabi yn edrych yn wahanol iawn eleni, gan fod yn rhithiol i raddau helaeth. Byddant hwythau yn cyhoeddi eu cynlluniau llawn ar gyfer y Cenotaph ddechrau'r Hydref.
(3) Nad oedd arweiniad wedi dod i law gan Unllais Cymru.
(4) Y gallasai pethau newid yn sylweddol erbyn mis Tachwedd, ond tydi gwneud dim ar Sul y Cofio ddim yn opsiwn.
(5) Y byddai angen rheolaeth lym ar unrhyw ddigwyddiad fyddai'n cael ei drefnu.

Nodwyd ymhellach:
(1) Nad oedd Cyngor Gwynedd eisiau unrhyw ddigwyddiadau torfol yn y Sir ac ar dir y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Mawrth 2021.
(2) Y byddai'n rhaid hysbysu'r cyhoedd o unrhyw drefniant cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib.

Er nad oedd Canllawiau wedi dod i law, trafodwyd opsiynau posib, fel gwneud popeth yn rhithiol drwy ddefnyddio Facebook neu'r defnydd o'r sgrîn fawr (er y byddai hyn yn denu torf).

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc:
(1) Wirio beth mae trefi eraill yn ei wneud ar y diwrnod.
(2) Wirio beth oedd y Canllawiau yn rhwystro 30 o bobl i ymgynnull yn gyhoeddus.
(3) Drefnu cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Keith Jones a'r Heddlu unwaith y bydd Canllawiau wedi dod i law.

8. Nadolig 2020

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar Nadolig 2020.

(I) Goleuadau Nadolig

Nodwyd:

(1) Bod y Cyngor yn ei drydedd flwyddyn o Gontract tair blynedd gyda chwmni Blachere.
(2) Bod y Clerc wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Blachere ar y 28ain o Awst, er mwyn cynllunio tuag at drefniadau'r Nadolig.
(3) Y bwriad yw y bod y Noson Nadoligaidd wedi'i threfnu ar gyfer dydd Iau, 3ydd Rhagfyr, pan fydd y Goeden Nadolig yn cael ei throi ymlaen. Byddai'n rhaid tynnu yn ôl rhywfaint ar y trefniadau eleni oherwydd Covid-19.
(4) Yn ystod y cyfarfod, awgrymwyd y dyddiadau canlynol:

- 13eg Tachwedd - dechrau'r gosodiad.
- 27ain Tachwedd - troi Goleuadau Nadolig ymlaen (ar wahân i'r Goeden Nadolig).
- Rhoi'r goleuadau i ffwrdd: ail wythnos yn Ionawr.

(5) Bod HWB wedi codi llawr sglefrio iâ y llynedd, a bod y Goeden Nadolig wedi derbyn ei thrydan o hyn. Ni fydd hyn yn digwydd eleni. Roedd yn debygol felly y byddai'r Goeden Nadolig yn cael ei gosod yn y twll ar y Maes (yn debyg i'r trefniadau yn 2018 ac yn gynharach).

(II) Materion o 2019

(1) Nodwyd y sylwadau sylwadau canlynol yn y Pwyllgor Adloniant ym mis Ionawr:

(1) "Y dylid ystyried yr opsiwn o gael y Goeden Nadolig yn "Turf Square". Mae'n debyg bod lleoliad y goeden wrth y rinc iâ wedi tynnu rhywfaint oddi ar effeithlonrwydd a gweledd y goeden.
(2) Y gellid ystyried cael Coeden Nadolig go iawn ar y Maes a'r Goeden bresennol yn "Turf Square".
(3) Nad oedd goleuadau Nadolig wedi ymestyn i bob man, er enghraifft pen uchaf Stryd Llyn, ac roedd sgaffaldau wedi bod yn broblem mewn rhai ardaloedd.
(4) Nad oedd y sustem o reoli traffig wedi gweithio ar gyfer y Noson Nadoligaidd.
(5) Nad oedd gorymdaith ffurfiol wedi bod o'r Maes i Theatr Seilo, ond mae'n debyg fod y tywydd garw yn ffactor yn hyn o beth. Ar gyfer 2020 gellid ystyried gorymdaith efo goleuadau neu ganhwyllau.
(6) Nad oedd lleoliad Siôn Corn wedi gweithio'n rhy dda ar y Noson Nadoligaidd.
(7) Bod y posteri ar gyfer y Noson Nadoligaidd a'r Gystadleuaeth Ffenestri Siopau wedi gweithio'n dda, ond roedd rhai pobl yn cymysgu rhwng y ddau.
(8) Y dylid ystyried gwneud y Noson Nadoligaidd wythnos yn gynt yn 2020, yn ogystal ag ystyried Neuadd y Farchnad fel lleoliad yn lle Theatr Seilo.
(9) Efallai y byddai 2 emyn gynulleidfaol wedi bod yn well na 4.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol) ac i:
(1) Ystyried ymarferoldeb cael Coeden Nadolig go iawn ar gyfer 2020.

(2) Edrych ar opsiynau neu gwmnïau eraill o ran rheoli traffig ar gyfer Noson Nadoligaidd 2020.
(3) Y dylid cynnwys Ysgol Pendalar yn nhrefniadau Noson Nadoligaidd 2020."

(2) Y gwnaed sylwadau yn 2019 nad oedd y Goleuadau Nadolig wedi gorchuddio Stryd Llyn i gyd. Roedd y Clerc wedi trafod hyn gyda Blachere, ac roeddent wedi edrych ar groes stryd ychwanegol ar ddiwedd Stryd Llyn. Fodd bynnag, ni fydd y seilwaith presennol yn caniatáu ar gyfer hyn. Un awgrym fyddai gosod coed Nadolig 4 troedfedd, ond bydd angen gosod cyflenwad pŵer cyfagos o hyd.
(3) Y bu problemau iechyd a diogelwch gyda sgaffaldiau yn 2019, a'r canlyniad oedd nad oedd y Goleuadau Nadolig wedi gallu cael eu gosod ym mhob man fel y bwriadwyd. Byddai'r Clerc yn gallu ffonio'r cwmnïau sy'n darparu sgaffaldiau yn y dref er mwyn canfod a fyddai'r sgaffaldiau'n dal i fod yn eu lle erbyn canol mis Tachwedd.
(4) Nid oedd y Blachere yn gallu darparu Coeden Nadolig go iawn.

Oherwydd Covid-19 gwnaethpwyd y sylw y dylid gwario mwy ar Nadolig eleni er mwyn ceisio codi calonau pobl, ac o bosib symud yr amserlen ymlaen.

Penderfynwyd:
(1) Peidio â chynnal y Noson Nadoligaidd yn ei ffurf bresennol, a gwneud defnydd o bethau fel Facebook.
(2) Gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau i weld os y gellir cael y Sgrîn fawr am 2 benwythnos eleni yn hytrach nag un, sef penwythnos y 13eg / 14eg o Ragfyr a phenwythnos yr 20fed / 21ain o Ragfyr.
(3) Gofyn i'r Clerc siarad efo ysgolion lleol i drafod os oeddynt yn gallu recordio caneuon ar gyfer y Sgrîn Fawr, ac i ddweud y bydd y Gystadleuaeth Posteri yn parhau.
(4) Gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau o ran os gellid cael Coeden Nadolig go iawn ar Turf Square.
(5) I gadarnhau'r dyddiadau canlynol:

- **13eg Tachwedd – dechrau gosod y Goleuadau Nadolig.**
- **27ain Tachwedd - troi Goleuadau Nadolig ymlaen (ar wahân i'r Goeden Nadolig).**
- **3ydd Rhagfyr – Troi'r Goeden Nadolig ymlaen.**

(6) Gofyn i'r Clerc holi HWB beth oedd eu cynlluniau o ran darparu coed Nadolig ar gyfer y dref. Yna, os oedd angen, ystyried y ddarpariaeth ar gyfer pen uchaf Stryd Llyn, a Stryd y Porth Mawr (am fod y stryd wedi cau i gerbydau).
(7) Cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Adloniant ar ddydd Iau, y 22ain o Hydref er mwyn trafod materion y Nadolig.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.55 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____